



Cyfres Stori Duw

Gwers 4

Pobl yn troi eu cefn

Genesis 3:1 – 24

Nod:

Dysgu bod dyfodiad pechod i'r byd wedi effeithio ar y greadigaeth gyfan, gan gynnwys perthynas Duw â'i bobl.

Adnodau:

Genesis 3:1 – 24

Cefndir:

Am gwrs 48 sesiwn sy'n rhoi trosolwg o'r Beibl cyfan, efallai ei fod yn ymddangos yn ormod treulio tair gwrs ar dair pennod gyntaf y llyfr cyntaf. Ond dyma'r hanesion sy'n rhoi cefndir a sail i ni ar gyfer stori fawr Dduw. Gwelwyd hyd yma mai cynllun Duw ar gyfer pobl oedd eu bod i reoli a gofalu am y greadigaeth, mewn perthynas ag Ef, o dan ei awdurdod Ef, yn y lle y mae Ef wedi ei ddarparu. Nid robotau a greodd Duw, fe roddodd ryddid i Adda ac Efa i fod yn ffyddlon Iddo neu i fynd eu ffordd eu hunain a pheidio â derbyn Ei awdurdod. Byddwn yn gweld heddiw beth oedd penderfyniad Adda ac Efa.

Gweithgaredd:

Dewch â nifer o bapurau newydd gwahanol gyda chi. Rhannwch y bobl ifanc yn grwpiau, a gofyn iddynt dorri cymaint o benawdau ar gyfer 'newyddion drwg' â phosibl. Wedi iddynt orffen rhowch hwy i fyny ar wal neu ar fwrdd arddangos. Cofiwch bwysleisio'r gwahaniaeth rhwng storiâu sydd yn fwy ysgafn, e.e. tîm pêl-droed yn colli ac ati, a storiâu mwy difrifol. Eglurwch mai dim ond inc a phapur, neu rywbeth pell i ffwrdd yw'r

hanesion hyn i ni, ond mae digwyddiadau fel hyn wedi effeithio'n fawr ar y bobl sy'n rhan ohonynt. Eglurwch fod y penawdau hyn yn dangos bod ein byd yn bell iawn o fod yn fyd perffaith fel yr un y clywsom amdano yn y ddwy wers ddiwethaf. Beth aeth o'i le?

Darlun Eden:

Rhowch gopïau o Atodiad 3 i bob un o'r bobl ifanc. Gofynnwch iddynt wneud nodiadau am eu darlun hwy wrth i chi roi eglurhad ar gyfer pob llun. Byddwn yn defnyddio'r darlun hwn, neu amrywiadau ohono yn ystod rhai o'r sesiynau eraill yn y cwrs, felly mae'n bwysig bod y bobl ifanc yn gyfarwydd ag ef. Efallai y byddai'n syniad rhoi eu copïau ar y wal ar ddiwedd y wers (os yw hynny'n bosibl).

1. Duw wnaeth y byd a phopeth ynddo.
2. Uchafbwynt y greadigaeth oedd y ddynoliaeth, wedi eu creu ar lun a delw Duw.
3. Roedd gan y bobl yma swyddogaeth unigryw yn y greadigaeth, nhw oedd i'w reoli a gofalu amdano. Roedd ganddynt hefyd berthynas unigryw â Duw
4. Enwau'r bobl gyntaf oedd Adda ac Efa. Rhoddodd Duw hwy mewn lle arbennig – Eden, lle roeddent yn gallu byw gyda Duw a siarad yn rhydd gydag Ef. Roedd eu dymuniad i fyw gyda Duw ac o dan ei awdurdod yn cael ei adlewyrchu trwy gadw'r gorchymyn y rhoddodd Duw iddynt.
5. Roedd gardd Eden a'r hyn a

ddigwyddodd yno i fod i ddwyn bendith i'r byd cyfan, cânt eu darlunio yma fel afonydd yn rhedeg o Eden i'r byd. Eden yw'r sefyllfa ddelfrydol i bobl Dduw – byw yn y lle y mae Duw wedi'i ddarparu, byw o dan awdurdod Duw, rhoi bendith i'r byd cyfan.

Mae'r Beibl yn cyfeirio at y sefyllfa yma fel 'Gorffwys'

Darllen yr adnodau:

Darllenwch y darn fel cyflwyniad dramatig, gydag unigolion gwahanol yn darllen rhannau'r gwahanol gymeriadau. Mae hyn yn haws os ydych wedi ffotocopio'r testun a thanlinellu'r rhannau o flaen llaw.

Trafodaeth:

Rhannwch y dosbarth yn ddau a gofynnwch iddynt ystyried a dyfalu beth oedd yn mynd trwy feddwl Adda ac Efa wrth iddynt anufuddhau i orchymyn Duw. Gall un grŵp ystyried Adda ac un grŵp ystyried Efa.

Wedi iddynt orffen gwneud hyn, ystyriwch fel dosbarth cyfan, sut fyddech chi'n teimlo os mai chi oedd Duw a bod Adda ac Efa wedi torri eich gorchymyn er eich bod wedi creu sefyllfa berffaith ar eu cyfer?

Gweithgaredd:

Gofynnwch i'r bobl ifanc beth ydyn ni'n galw bod yn anufudd i orchymynion Duw? Gair yn dechrau â P... Pechod. Mae canlyniadau i bechod, fel y gwelwn o adnod 16 ymlaen.

Rhannwch y bobl ifanc i grwpiau o 2 neu 3, a gofyn iddynt ysgrifennu'r canlyniadau sydd i bechod Adda ac Efa, fe fyddai siart droi yn ddelfrydol ond gellir defnyddio darnau mawr o bapur.

Wedi iddynt gael rhai munudau i wneud hyn, esboniwch fod canlyniadau i'n pechodau ninnau heddiw hefyd, gofynnwch iddynt nodi rhai ar eu rhestr. Gallwch roi enghreifftiau, megis goryfed: salwch, cur pen, gwenwyn yn y gwaed mewn rhai achosion; godineb: tor priodas ac ati; dwyn: carchar ac ati.

Amser Addoli:

I orffen mae'n bwysig nodi mai canlyniad mwyaf difrifol pechod yw ein gwahanu oddi wrth Dduw, fel y digwyddodd i Adda ac Efa. Er hyn, mae Duw yn dal i'n caru ac i ofalu amdanom fel y gwelwn yn ad. 21, lle mae Duw yn creu dillad i'r ddau. Gweddiwch i orffen, gan edifarhau am bechodau (cyffredinol nid penodol). Diolchwch hefyd fod Duw yn dal i'n caru, a bod gweddill stori fawr Dduw yn sôn amdano Ef yn paratoi ffordd i ni allu cael maddeuant a dychwelyd i'r berthynas glos a oedd gydag ef yn y dechrau.